

Julie James AC/AM  
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip  
Leader of the House and Chief Whip



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA - L/JJ/0825/18

Mick Antoniw AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Senedd MCD@cynulliad.cymru

10 Rhagfyr 2018

Annwyl Mick,

Diolch ichi am eich llythyr, dyddiedig 15 Tachwedd 2018, ynglŷn â chraffu ar reoliadau sy'n deillio o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Fel y byddwch yn deall, mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd wedi creu rhaglen ddeddfwriaethol ar draws holl Lywodraethau'r DU na welwyd mo'i thebyg o'r blaen, ac rydym i gyd yn gweithio i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer y diwrnod ymadael ar 29 Mawrth 2019.

Ar hyn o bryd rwy'n disgwyl y bydd 140-150 o OSau Ymadael gan Lywodraeth y DU, sy'n deddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru, cyn y diwrnod ymadael. Ond gallai'r nifer hwn newid wrth i OSau gael eu cyfuno neu eu datgyfuno ac wrth i rai newydd ddod i'r amlwg. Bydd angen i bron bob un o'r rhain gael cydsyniad Gweinidogion Cymru drwy'r broses a nodwyd yn y Cytundeb Rhynglywodraethol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cydsyniad ffurfiol i 71 o OSau ac wedi rhoi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol, o dan Reol Sefydlog 30C, am 51 o OSau (nid yw'r 20 sy'n weddill wedi'u gosod yn Senedd y DU eto). O blith y 71, roedd gofyn cael Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A.2 ar gyfer chwech ohonynt. Rydym yn amcangyfrif ar hyn o bryd y bydd tua 20 yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 30A, er y gallai'r ffigur hwn newid wrth i swyddogion ystyried manylion gweddill yr OSau drafft y bydd Llywodraeth y DU yn eu rhannu gyda ni yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl gosod oddeutu 50 o OSau Ymadael Cymreig yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae oedi wedi digwydd yn rhaglen OSau Cymru, am nifer o resymau. Mewn sawl achos, rhaid i OSau Cymru ddilyn OSau'r DU ac mae oedi wedi bod yn rhaglen y DU ei hun. Yn aml, rhaid i OSau Cymru ddilyn OSau'r DU gan fod y rheini'n

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

diwygio deddfwriaeth y mae OSau Cymru wedyn yn gwneud diwygiadau dilynol iddynt. Mewn rhai achosion, bydd OSau Cymru yn rhan o ddull gweithredu y cytunir arno drwy'r DU gyfan, sy'n golygu bod angen i'n OSau ni gyd-fynd â'r OSau a osodir yn Senedd y DU.

Yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gorfod blaenoriaethu'r gwaith ar raglen OSau'r DU, o ystyried y nifer fawr o OSau a gyflwynir sy'n gwneud darpariaeth ar ran Gweinidogion Cymru. Fel yr wyf wedi esbonio uchod, mae Gweinidogion Cymru wedi cydsynio'n barod i 71 o OSau gwahanol gan Lywodraeth y DU. Er mwyn cyrraedd sefyllfa lle'r oedd modd i Weinidogion Cymru gydsynio i fersiynau terfynol yr OSau hyn, cafwyd trafodaethau helaeth gyda'r adrannau perthnasol yn Llywodraeth y DU ynglŷn â'r datrysiadau arfaethedig a'r dulliau drafftio er mwyn sicrhau bod pob OS yn diogelu ein buddiannau datganoledig yn briodol. Mae'r cytundebau a geir ynghylch OSau'r DU sy'n gwneud diwygiadau i gyfraith a darpariaethau'r UE yn neddfwriaeth y DU sy'n uniongyrchol gymwys ac sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i'w diwygio yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod llyfr statud sy'n gweithredu'n iawn ar y diwrnod ymadael.

O ganlyniad i'r cytundebau a gafwyd ynglŷn ag OSau'r DU hyd yma, rydym yn rhagweld y bydd ein rhaglen OSau wedi'u chyfyngu i offerynnau sy'n diwygio rheoliadau domestig Cymreig a deddfwriaeth sylfaenol Gymreig. Nid oes yr un o'r offerynnau Cymreig hyn yn diwygio cyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys. Rydym yn rhagweld y bydd 77 o OSau Ymadael y DU yn diwygio cyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r OSau hyn wedi'u cynnwys yn y ffigur o 140-150 o OSau Ymadael y DU yr ydym yn credu y byddant yn deddfu mewn meysydd datganoledig.

Rydym yn rhagweld y bydd rhaglen OSau'r DU yn parhau ar yr un cyflymder tan fis Mawrth. Cyn belled na fydd y rhaglen honno'n llithro ymhellach, rydym yn disgwyl y bydd OSau Cymru'n cael eu gosod rhwng mis Rhagfyr a mis Mawrth. Rydym yn disgwyl y bydd tri OS yn cael eu gosod cyn toriad y Nadolig, a phob un ohonynt i'w cynnig fel OSau gweithdrefn negyddol o safbwynt y sifftio. Rydym yn disgwyl y bydd gweddill yr OSau'n cael eu gosod o'r toriad hyd at fis Mawrth, ac ar hyn o bryd disgwylir y bydd oddeutu 5% ohonynt yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Rwy'n rhagweld y bydd mis Ionawr yn fis arbennig o brysur gan y bydd rhaglen OSau Ymadael Cymru ar waith o ddifrif ac y bydd rhaglen OSau'r DU yn parhau.

Mae Gweinidogion Cymru yn cydsynio i OSau'r DU ar y sail nad oes gwahaniaeth barn rhwng Cymru a'r DU o ran y polisi, ac nad yw'r OSau yn sensitif yn wleidyddol. Diben yr OSau hyn yw gwneud cywiriadau fel bod y llyfr statud yn weithredol ac maent yn cael eu gwneud gan Weinidogion y DU, gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru, er hwylustod gweinyddol.

Mae swyddogion yn y pedair gweinyddiaeth yn cydweithio'n agos ar y gwaith o ddrafftio'r OSau a'r deunydd cysylltiedig i'w gynnwys yn y memoranda esboniadol. Mae'r penderfyniadau ynglŷn â phwy, ar ôl y diwrnod ymadael, a ddylai arfer y pwerau sydd wedi'u rhoi i endidau'r UE ar hyn o bryd yn cael eu hystyried yng nghyd-destun pob OS, gan ddibynnu ar natur y pŵer dan sylw ac a oes ffactorau sy'n golygu nad yw'n ddymunol i weinyddiaeth arfer y pŵer hwnnw heb i weinyddiaeth arall fod ynghlwm ag ef. Dyma ein safbwynt diofyn: os oes swyddogaeth mewn maes sydd wedi'i ddatganoli i Gymru, dylai'r swyddogaeth berthnasol gael ei rhoi i Weinidogion Cymru neu i gorff cyhoeddus priodol yng Nghymru. Fodd bynnag, mewn nifer o sefyllfaoedd, mae'n bosibl na fyddai'r safbwynt diofyn yn briodol neu'n ymarferol. Mae'r rhain yn debygol o godi o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Lle bo natur drawsffiniol y ddarpariaeth gwasanaethau yn golygu bod angen i'r ddwy wlad gydweithio'n agos, er budd dinasyddion neu i osgoi rhoi pwysau diangen ar sefydliadau. Gallai hyn fod oherwydd y ffordd y mae pobl neu nwyddau yn teithio ar draws y ffin, neu oherwydd nodweddion daearyddol penodol y ffin.

- Lle bo cymaint o gydblethu rhwng agweddau datganoledig ac annatganoledig y gwaith o gyflenwi'r polisi fel nad yw'n ymarferol i'r elfennau datganoledig gael eu cyflenwi heb gyfeirio at yr elfennau annatganoledig, neu fel arall.
- Lle bo'r gwaith o weithredu'r polisi'n cael ei gyfyngu gan gytundebau rhyngwladol a fydd yn gymwys y tu hwnt i Brexit ac mai ychydig o hyblygrwydd, felly, sydd o ran penderfyniadau polisi.

Yn yr achosion hyn, mae amryw o ddewisiadau ar gael o ran sut y gellir arfer swyddogaethau, ac mae'r Gweinidogion yn gwneud penderfyniad am bob un o OSau unigol Llywodraeth y DU ar ôl ystyried yr holl faterion perthnasol yn llawn.

Mewn achosion lle rhoddir cydsyniad i un o OSau Llywodraeth y DU, ein safbwynt ni yw bod y cydsyniad yn cael ei roi i'r OS cyfan, yn hytrach nag i rannau penodol ohono. Lle gwneir darpariaeth, yn yr un OS, mewn perthynas â materion sydd wedi'u datganoli a materion sydd wedi'u cadw'n ôl, bydd y dull gweithredu a ddefnyddir ar gyfer materion sydd wedi'u cadw'n ôl yn cael effaith ar faterion datganoledig yn aml. Am y rheswm hwnnw, rydym yn ystyried ei bod yn briodol bod Gweinidogion Cymru yn ystyried ac yn cydsynio i'r OS cyfan, yn hytrach nag yn ystyried y meysydd datganoledig yn unig.

Yn gywir,



**Julie James AC/AM**

Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip  
Leader of the House and Chief Whip